



19 Hydref 2021

Annwyl Bennaeth y Ganolfan

Yn dilyn ein [cyhoeddiad](#) yr wythnos diwethaf am y dull gweithredu wrth gefn ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2022, hoffem roi mwy o wybodaeth i chi am gyhoeddi ein canllawiau. Ar hyn o bryd ein bwriad yw i'r canllawiau cychwynnol gael eu cyhoeddi ar ôl hanner tymor. Bydd yn rhoi trosolwg i ganolfannau o'r gofynion y mae angen eu hystyried ar hyn o bryd pe bai cyfres arholiadau haf 2022 yn cael ei chanslo a bod trefniadau asesu wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith. Ochr yn ochr â hyn, bydd [CBAC](#) yn cyhoeddi Fframweithiau Asesu Cymwysterau ar gyfer pob pwnc yn ogystal â chanllawiau a gwybodaeth asesu ategol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda CBAC a rhanddeiliaid eraill i lunio canllawiau pellach ar y trefniadau asesu wrth gefn ar gyfer haf 2022. Fodd bynnag, hoffem ailadrodd mai dim ond os gwneir penderfyniad gan [Lywodraeth Cymru](#) i ganslo arholiadau y bydd y trefniadau wrth gefn yn cael eu gweithredu.

### **Paratoi ar gyfer cyfres arholiadau haf 22**

Rydym yn ymwybodol bod rhai canolfannau yn bwriadu cynnal ffug arholiadau ar ôl hanner tymor i baratoi eu dysgwyr ar gyfer arholiadau'r haf hwn. Gall canolfannau fod yn cynllunio fel rhan o'u trefniadau asesu wrth gefn i ddefnyddio canlyniadau'r ffug arholiadau hyn fel tystiolaeth o gyrhaeddiad os oes angen cynhyrchu graddau wedi'u pennu gan y ganolfan wedyn. Os felly, rhaid i ganolfannau hysbysu dysgwyr y gellid defnyddio canlyniadau'r asesiadau hyn fel rhan o'r dystiolaeth i bennu eu gradd os caiff arholiadau eu canslo cyn i'r ffug arholiadau gael eu cynnal.

#### **Qualifications Wales**

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

#### **Cymwysterau Cymru**

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

Dylid rhoi gwybod i ddysgwyr am unrhyw fath arall o asesiad y gellid ei ddefnyddio fel tystiolaeth o gyrhaeddiad. Fodd bynnag, mae angen iddi fod yn glir i ddysgwyr nad yw hyn yn golygu y gellid defnyddio'r holl waith ac unrhyw waith y maent yn ei gwblhau fel tystiolaeth.

Dylai canolfannau hefyd adolygu hysbysiadau preifatrwydd prosesu data er mwyn ystyried y posibilrwydd y gellid defnyddio asesiadau canolfannau fel tystiolaeth o gyrhaeddiad os gweithredir y trefniadau wrth gefn.

### **Paratoi ar gyfer cyfres arholiadau gaeaf 21/22**

Rydym wedi diweddarau'r [cynllun wrth gefn ar y cyd](#) sy'n rhoi arweiniad i ysgolion a cholegau ar beth i'w wneud os amharir yn ddifrifol ar arholiadau. Ymgylfarwyddwch â'r ddogfen cyn cyfres arholiadau'r gaeaf sydd i ddod.

Yn gywir



Philip Blaker  
Prif Weithredwr